Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Coedwigoedd **Ceredigion** Forests

# Y Bwa/The Arch




Nodweddir sir hynafol Ceredigion gan ei harfordir ysblennydd, ei hucheldir anghysbell, ei gwlyptiroedd gwych a'i dyffrynnoedd afonydd dwfn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o ofalu am ambell drysor gwirioneddol yn y rhan dawel hon o Gymru sy'n frith o olygfeydd dramatig.

The ancient county of Ceredigion is characterised by its stunning coastline, remote upland landscape, wonderful wetlands and deep river valleys.

Natural Resources Wales is proud to look after some real gems in this scenically dramatic yet tranquil part of Wales.



Golygfa o Fwlch Nant yr Arian i Aberystwyth a Bae Ceredigion
View from Bwlch Nant yr Arian towards Aberystwyth and Cardigan Bay

## Llwybr y Panorama
## The Panorama Trail

Dilynwch yr arwyddion coch
Follow the red waymarker symbol

**Cymedrol | Moderate**
Pellter | Distance: 1½m | 2.5km
Amser | Time: 1¼ awr | hours
Dringo | Climb 400tr/ft | 120m

**UCHAFBWYNTIAU:** Ar ôl dringfa fer ond serth cewch eich gwobrwyo gydag un o'r golygfeydd mwyaf ysbrydoledig yng Nghanolbarth Cymru. Ar ddiwrnod clir gallwch weld Cadair Idris nifer o filltiroedd i ffwrdd yn Eryri.

**DISGRIFIAD:** Taith gymharol gyda nifer o ddringfeydd hir a disgyniadau serth. Bydd yr arwynebedd yn arw ac yn wlyb mewn mannau o bosibl. Argymhellir eich bod yn dod ag esgidiau cerdded gyda gafael dda. Gofynnir am lefel dda o ffitrwydd ar gyfer y daith hon.

**HIGHLIGHTS:** After a short but steep climb you'll be rewarded with one of the most inspiring views in Mid Wales. On a clear day you can see Cadair Idris many miles away in Snowdonia.

**DESCRIPTION:** A moderate walk with a long climbs and steep descent. The surface will be rough and possibly wet in places. Walking shoes with a good grip recommended. You need a good level of fitness for this walk.

## Llwybr Coetir y Bwa
## The Arch Woodland Trail

Dilynwch yr arwyddion melyn
Follow the yellow waymarker symbol

**Cymedrol | Moderate**
Pellter | Distance: 1m | 1.6km
Amser | Time: ¾ awr | hour
Dringo | Climb 65tr/ft | 20m

**UCHAFBWYNTIAU:** Y bwa gwaith maen ysblennydd. Taith sy'n gyfoeth o fywyd adar- efallai y byddwch yn ffodus i gael gweld gylfingroes.

**DISGRIFIAD:** Taith gymharol gydag un ddringfa serth. Mae'r arwynebedd yn dda yn gyffredinol ond gall fod yn wlyb mewn mannau. Argymhellir eich bod yn dod ag esgidiau cerdded gyda gafael dda. Gofynnir am lefel gymharol o ffitrwydd ar gyfer y daith hon.

**HIGHLIGHTS:** The spectacular masonry arch. This is a walk rich in bird life – try to spot a crossbill.

**DESCRIPTION:** A moderate walk with one steep climb. The surface is generally good but may be wet in places. Walking shoes with a good grip recommended. You need a reasonable level of fitness for this walk.

## Llwybr Ffawydd Hynafol
## Ancient Beech Trail

Dilynwch yr arwyddion coch
Follow the white waymarker symbol


**Cymedrol | Moderate**
Pellter | Distance: ½m | 0.8km
Amser | Time: ¾ awr | hour
Dringo | Climb 130tr/ft | 40m

**UCHAFBWYNTIAU:** Gallwch weld coed ffawydd 200 mlwydd oed a blannwyd gan Thomas Johnes. Maen nhw'n cynnig cartref i nifer o rywogaethau o bryfaid a ffyngau wrth iddynt bydru.

**DISGRIFIAD:** Taith gymharol gydag un ddringfa serth. Mae'r arwynebedd yn dda yn gyffredinol ond gall fod yn wlyb mewn mannau. Argymhellir eich bod yn dod ag esgidiau cerdded gyda gafael dda. Gofynnir am lefel gymharol o ffitrwydd ar gyfer y daith hon.

**HIGHLIGHTS:** See 200 year-old beech trees planted by Thomas Johnes. They provide a home for many species of insect and fungi as they decay.

**DESCRIPTION:** A moderate walk with one steep climb. The surface is generally good but may be wet in places. Walking shoes with a good grip recommended. You need a reasonable level of fitness for this walk.




## Croeso i'r Bwa ym Mhenbwlchbodcoll!

**Adeiladwyd yr hen fwa o feini gan Thomas Johnes yr Hafod yn 1810 i nodi Jiwbilî Aur Siôr III. Ar un adeg dyma borth Ystâd yr Hafod.**

### Lle rhagorol i gerdded

Mae'r gornel hon o Ystâd wreiddiol yr Hafod yn cynnig amrywiaeth o lwybrau, a rhai ohonynt yn arwain drwy goed ffawydd enfawr a blannwyd fwy na 200 mlynedd yn ôl gan Thomas Johnes, a gynlluniodd blas a thir yr Hafod gerllaw. Mae'r olygfan o ***Lwybr y Panorama*** yn cynnig golygfeydd estynedig ichi ar draws Canolbarth Cymru.

## Ymladd clefyd coed yn Y Bwa

Rydym wedi cwympo grwpiau o larwydd a heintiwyd gan y clefyd ffyngol *Phytophthora ramorum* yn y fan hon i helpu i'w atal rhag lledaenu. Mae'r llwybrau cerdded i gyd yn mynd drwy ardaloedd o goed sydd wedi'u cwympo yn ddiweddar a bellach ceir mwy o olygfeydd o'r llwybrau i gyfeiriad y bryniau oddi amgylch.

## Welcome to The Arch at Penbwlchbodcoll - 'the head of the pass of lost existence'!

**The old masonry arch was built by Thomas Johnes of Hafod in 1810 to mark the Golden Jubilee of George III. It was once the gateway to the Hafod Estate.**

### A great place to walk

This corner of the original Hafod Estate offers a range of trails, of which lead through huge beech trees planted over 200 years ago by Thomas Johnes, who designed the nearby Hafod mansion and grounds. The viewpoint from the ***Panorama Walk*** gives you far-reaching views of Mid Wales.

## Fighting tree disease at The Arch

We have felled groups of larch trees infected with the fungal disease *Phytophthora ramorum* here to help stop it spreading. The walking trails all pass through areas of recently felled trees and there are now more views from the paths to the surrounding hills.


Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2018 Arolwg Ordnans 100019741.

This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2018 Ordnance Survey 100019741.




Coeden ffawydden hynafol
Ancient beech tree



Coed ffawydd yn yr hydref
Autumn beech woods



Golygfeydd Llwybr Panorama
Panorama Walk views


www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000


| | |
|---|---|
| parcio / parking | parcio hygyrch / accessible parking |
| toiledau / toilets | hygyrch / accessible |
| llwybrau - hygyrch / accessible trails | gwybodaeth / information |
| gwylfan / viewpoint | ffin coedwig CNC / NRW forest boundary |
| lle picnic / picnic area | maes chwarae / play area |
| caffi / café | llwybrau beicio / bike trails |
| llwybrau cerdded / walking trails | llwybr cyhoeddus / public footpath |
| ffordd a ddefnyddir yn llwybr cyhoeddus / road used as a public path | |


Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

4772.10.18.xxx